CYNGOR CYMUNED PENNAL

**Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Cymuned Pennal a gynhaliwyd Nos Wener y 12fed o Ragfyr 2025 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.**

Presennol; Rhys Parry, William Rees, Meirion Roberts, Sion Evans, Aled Rees a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cyng Rhys Parry. Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Dewi Owen.
2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Cadarnhawyd gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7fed o Dachwedd 2025 ar gynnig Cyng Sion Evans a'i eilio gan Cyng Meirion Roberts.
4. **Materion yn codi.**
   a) **Materion Priffyrdd – darllenwyd ymatebion ers cyfarfod diwethaf.** Roedd cadarnhad fod y gully ger Pantlludw yn derbyn sylw**.** Ynglyn â'r dwr o flaen Ty Alys, roedd Cyng William Rees mewn cyswllt gyda Sion Wilkes.
   b) **Mynwent yr Eglwys** – dywedodd y Clerc nad oedd unrhyw ddatblygiad pellach.Nodwyd y dylid trefnu diwrnod i dacluso yr hen fynwent eto yn y Gwanwyn.
   c) **Menter y Glan** – CCTV – adroddwyd am 3 amcangyfrif i law gan Cyng Meirion Roberts. Nodwyd nad oedd llogi y camerau yn opsiwn, ac felly dewiswyd amcangyfrif Dyfed Telecom. Ar gynngi Cyng Wiliam Rees a'i eilio gan Cyng Sion Evans, penderfynwyd mynd ymlaen efo hyn ar y pris o £3295.20. (cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Cyng Meirion Roberts a Rhys Parry
   d) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned - roedd ad-daliad gan Gyngor Gwynedd wedi ei wneud gan y Clerc, a swm o £5188 wedi ei dderbyn. Roedd gweddill y gwaith gyda'r gronfa mewn llaw gan Cyng Meirion Roberts, a diolchwyd am hyn.
   e) **Cyngor Tref Aberdyfi** – Cynllun Trafnidiaeth cymunedol gwirfoddol – nodwyd y diweddaraf.

f) **Yswiriant i'r byrddau/meinciau newydd** – roedd rhain wedi eu hychwanegu, a cadarnhad i law gan y cwmni na fyddai ychwanegiad i'r premiwm.

g) **Gwelliant i'r arhosfan bws yn Cwrt** – nodwyd y byddai amcangyfrifon i law erbyn y cyfarfod nesaf.

h) **Coeden ar y Marian** - Trafodwyd yn y cyfarfod diwethaf fel roedd y goeden ar y Marian yn gwyro i un ochr, a gwelwyd y dylid cael adroddiad am y sefyllfa. Roedd Rhydian Roberts, Swyddog Coed a choedlannau'r Parc Cenedlaethol wedi ymweld gyda Rhys Parry y Cadeirydd yno hefyd, ac roedd wedi danfon e-bost 7.12.25, a oedd wedi ei ddosbarthu i'r Cynghorwyr.

Penderfynwyd dewis opsiwn 2 o'r e-bost, sef cwympo'r goeden, ac ail-blannu dwy goeden newydd yn lle'r *Oestrwydden*. Roedd yn awgrymu un llydanddail, sef *Pisgwydden,* ac un goeden gonwydd, sef *Ffynidwydden Corea*. Cadarnhaodd y byddai'r Parc Cenedlaethol yn cyflenwi y *Pisgynwydden.*

Roedd angen cadarnhad a chaniatad i fynd ymlaen i gwympo y goeden bresennol, a byddai'r Clerc yn danfon at Rhydian.

Ar fater arall, bu trafodaeth ar y posibilrwydd o blannu coed ar dir fferm Rhosfarch gerllaw, ac roedd angen gwybod os byddai ymgynghoriad gyda'r Cyngor Cymuned petai hyn yn mynd ymlaen.

5**. Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw faterion i law.

6.**Materion Cyllid.**

a) Nodwyd balansau y cyfrifon, (12.12.25), sef Cyfri Cyfredol £19975.86, a Cyfri Cadw £2697.91.

Cadarnhwyd y gyllideb i'r Cyngor ar gyfer 2026-27, a chadarnhwyd ar gynnig Cyng Sion Evans a'i eilio gan Cyng Aled Rees i **gadw y praesept yr un fath ar gyfer 2026-27, sef £18,000.**

b) Nodwyd anfonebau i law, ac ar gynnig Cyng Aled Rees a'i eilio gan Cyng Merion Roberts, penderfynwyd fel a ganlyn;

- Cost torri gwair mynwent Pennal 2025 - £350
- Cydnabyddiaeth y Clerc - £537.48 a HMRC £134.40

c) Ceisiadau am arian

- Apel Cronfa Cyfle i bawb Urdd Gobaith Cymru - £200
- Yr Urdd – Rhanbarth Meirionnydd - £200

Penderfynwyd peidio cyfrannu i Eisteddfod yr Urdd Ynys Mon 2026

…………………………………

Gofynnwyd a fyddai modd yswirio cylch y Marian, ac roedd angen prisiad erbyn y tro nesaf.

**7. . Gohebiaeth**

a) Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru a oedd i law. Diolchwyd i'r Cyng Sion Evans fynd ar y cwrs hyfforddiant Cod ymddygiad ar y 9fed Rhagfyr, ac roedd tystysgrif i law y Clerc.

b) Cynllun Partneriaeth Toiledau Cyhoeddus Pennal – nodwyd e-bost gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau y byddai y byddai cyfraniad 2026-27 yn cynyddu o £4000 i £5440.

c) Ymgynghoriad Bwrdd Iechyd Hywel Dda gyda Ysbyty Bronglais – nodwyd y diweddaraf, a byddai'r Clerc yn dosbarthu i'r Cynghorwwyr.

d) Nodwyd ohebiaeth gan BCUHB yn nodi y diweddaraf ynglyn a dyfodol Ysbyty Gymunedol Tywyn,a byddai'r Clerc yn dosbarthu

e) Nodwyd gyda thristwch ohebiaeth Ben Thomas, Ymgymerwr Angladau am agor bedd ym mynwent Pennal i Non Menai Evans (2 wythnos oed) Cadarnhwyd fod y Cyngor Cymuned yn talu y costau.

8.**Unrhyw fater arall.**

- Roedd angen bin halen ar Rhiw Cefncynhafal, a byddai'r Clerc yn cael pris gan Gyngor Gwynedd erbyn tro nesaf.
- Adroddodd Cyng Aled Rees am y diweddaraf gyda'r de-fibs, a bod un Pennal bellach wedi ei gofrestru ar y rhwydwaith. Cadarnhwyd fod un Cwrt yn iawn am y tro, ond byddai rhaid ail-ystyried pan fyddai'r batris wedi darfod.

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF; Nos Wener y 16eg Ionawr 2026 yn y Ganolfan am 7.30yh.**